

Cylchlythyr Cymunedol o PROSIECT YNNI ADNEWYDDADWY DOLWYDDELAN



Mewn cyfarfod yr is-bwyllgor a gynhaliwyd ym mis Medi 2017, trafodwyd y broblem gynnydd mewn ardrethi busnes i gynlluniau hydro cymunedol. Cyhoeddwyd hyn am y tro cyntaf ym Mai 2017, a chododd bryder enbyd ar unwaith o ran hyfywedd ariannol y prosiect. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid defnyddio'r cronfeydd dros ben, ac efallai hyd yn oed mwy na'r cronfeydd dros ben sydd ar gael, er mwyn talu'r bil ardrethi busnes blynyddol.

Pennir yr ardrethi annomestig ar gyfer unrhyw fusnes gan y Swyddfa Brisiadau, ac roedd disgwyl cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r cynnydd hwn. Yn natganiad y gyllideb ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd rhai camau llianiaru, a fyddai'n cynnig 100% o ryddhad ardrethi ar gynlluniau hydro cymunedol presennol, ar gyfer 2017/2018 a 2018/2019. Am na fyddai hyn yn helpu achos Dolwyddelan, ysgrifennodd Arweinydd y Cyngor at yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, ond yn anffodus, nid oedd unrhyw gymorth pellach i ddod.

Yn ogystal â hynny, cysylltom â Banc Datblygu Cymru i geisio'r cyllid ychwanegol sydd ei angen i ariannu'r prosiect. Nid oedd y cynllun busnes masnachol ar gyfer y cynllun hwn yn ymddangos yn hyfyw bellach, am na fyddai'r incwm a gynhyrchir drwy'r cynllun yn gallu cynnal ad-daliad benthyciad, y cynnydd yn y cyfraddau busnes, yr angen i amnewid asedau yn y dyfodol a pharhau i fod â refeniw i'w ail-fuddsoddi yn y gymuned.

Roedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn ceisio cadarnhad bod y prosiect yn ddichonadwy ac yn mynd i gael ei gwblhau, oherwydd eu bod angen ddyrannu cyllid cyn diwedd 2018, cyn i'r DU adael yr UE.

Yn anffodus, yn sgil yr heriau hyn, rhaid dod â'r prosiect arfaethedig i ben, ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy barhau â chynllun a fyddai yn y pen draw'n golygu dyledion ariannol i gymuned na fyddai'n gallu eu had-dalu.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y gellid ystyried cynllun gwresogi cymunedol neu danwydd adnewyddadwy i gerbydau, gan ddefnyddio'r pŵer hydro, a gellir defnyddio'r wybodaeth o fewn yr adroddiad a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan Uniper Technologies ar gyfer unrhyw gynllun newydd. Bydd Steve Teal yn datblygu'r cynnig ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi mewn cyfarfodydd cymunedol yn y dyfodol, ac mae Conwy yn parhau i gefnogi Dolwyddelan i ystyried cynlluniau adnewyddu eraill yn eu hauchelgais i fod yn bentref cynaliadwy.